# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Gofal Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hwn yn datblygu eich sgiliau gofal plant. Byddwch yn astudio unedau ar ymarfer gofal plant, twf a datblygiad, iechyd a diogelwch, chwarae a gweithgareddau creadigol, sydd yn gysylltiedig â deddfwriaethau cyfredol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych am weithio gyda phlant a phobl ifainc

... Ydych am ddilyn cymwysterau pellach mewn disgyblaeth gysylltiedig

... Ydych am adeiladu ar wybodaeth a sgiliau cyfredol ym maes gofal plant.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Trwy gydol y cwrs hwn, byddwch yn magu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifainc o enedigaeth hyd at 19 oed. Bydd yn cwmpasu ystod

amrywiol o rolau swydd a meysydd galwedigaethol, gan eich paratoi ar gyfer gweithio mewn lleoliadau plant, gan gynnwys blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol.

Cyfuniad o theori ac ymarfer yw'r cwrs. Byddwch yn treulio tridiau'r wythnos yn y coleg yn datblygu gwybodaeth ac elfennau damcaniaethol y cymhwyster, a dau ddiwrnod yr wythnos mewn lleoliad gwaith (ynghyd â lleoliadau 'bloc' lle bo angen) yn ennill profiad ymarferol o weithio gyda phlant a phobl ifainc.

Bydd y cwrs yn datblygu gwybodaeth bynciol a chewch eich asesu ar wahanol gymwyseddau'r Theori ac Ymarfer. Bydd rhan fawr o'r asesiad yn digwydd yn eich lleoliad gwaith, ond bydd hefyd yn ofynnol i chi gwblhau asesiadau ac arholiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Lefel 2 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant - CBAC/City & Guilds
Lefel 2: Craidd
Lefel 2: Theori ac Ymarfer
Mathemateg a Saesneg

Byddwch hefyd yn ennill cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau megis:

Hylendid bwyd
Cymorth Cyntaf Pediatrig

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd disgwyl i chi ymrwymo i 5 diwrnod o astudiaeth bob wythnos, gan gynnwys y sesiynau addysgu sy'n cwmpasu elfen wybodaeth y cymhwyster yn y coleg, yn ogystal â diwrnodau/blociau lleoliad gwaith sy'n cwmpasu elfen gymhwysedd y cymhwyster.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunan-gymhelliant ac angerdd dros y diwydiant gofal yn ofynnol.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus drwy gydol y cwrs ac mae disgwyl i chi barhau â'ch astudiaethau a gwaith cwrs/lleoliad gwaith yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn gallu symud ymlaen i Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae,

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dysgu a Datblygiad Plant, CBAC/City & Guilds.

Byddwch hefyd yn barod i fynd i'r byd gwaith ac ennill cyflogaeth mewn rolau megis cynorthwyydd cyn-ysgol, cynorthwyydd meithrin, cynorthwyydd meithrinfa, gweithiwr gofal plant y tu allan i oriau ysgol neu gynorthwyydd Cylch Meithrin.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Rhaid i bob dysgwr gael gwiriad DBS boddhaol cyn dechrau'r cwrs.

Mae ymrwymiad a dibynadwyedd yn hanfodol